

Datgysylltu cyflenwad trydan




**SP ENERGY
NETWORKS**

Datgysylltu cyflenwad trydan

Os nad oes angen cyflenwad trydan ar gyfer eiddo arnoch bellach, a bod angen ei ddatgysylltu o'n rhwydwaith trydan arnoch, rydyn ni yma i helpu.

Mae'n bwysig cofio fodd bynnag mai gyda'ch cyflenwr trydan y dylech gysylltu os mai dim ond y mesurydd sydd angen ei dynnu – i'r cwmni hwnnw rydych chi'n talu eich biliau trydan. Os oes angen datgysylltu'r cyflenwad dros dro arnoch, er mwyn caniatáu i chi weithio o gwmpas ein cyfarpar, ffoniwch ni ar 0330 10 10 444.

Os yw eich cyflenwad yn cael ei borthi dan ddaear, bydd yn rhaid ynysu eich cebl gwasanaeth yn allanol. Bydd hyn yn cynnwys gwneud gwaith cloddio bach y tu allan i'ch eiddo er mwyn caniatáu i ni gael at y cebl a'i dorri'n ddiogel. Os yw eich cyflenwad yn cael ei borthi uwchben, bydd y cebl gwasanaeth yn cael ei derfynu wrth y polyn, a'r ceblau diangen yn cael eu tynnu.



Amserlenni

Gall ein gwefan - www.spenergynetworks.co.uk/disconnections - eich rhoi chi ar ben ffordd o ran amserlenni bras i'w cofio wrth ddatblygu eich rhaglen waith.



Cost

Caiff pob prosiect ei lunio'n benodol i gwrrd â'ch anghenion unigol chi. Os hoffech chi gael cost ddangosol cyn penderfynu bwrw ymlaen ai peidio, mae cyfrifiannell cost ar-lein ar gael ar ein gwefan:

www.spenergynetworks.co.uk/disconnections



Dechrau Arni

Rydyn ni am wneud y broses ddatgysylltu mor hawdd â phosib, felly rydyn ni wedi darparu llawer o wybodaeth ddefnyddiol ar ein gwefan, a hyd yn oed fideo byr i helpu i'ch arwain drwy'r broses.

www.spenergynetworks.co.uk/disconnections

Bydd angen y wybodaeth ganlynol arnom:

- lleoliad y safle
- sawl pwynt mesurydd sydd yn yr eiddo
- a oes unrhyw gyfyngiadau o ran y ffordd fynediad



Eich cais

Pan fyddwch chi'n barod i fwrw ymlaen, fe allwch chi wneud cais ar-lein, llwytho'r ffurflen gais i lawr o'n gwefan, neu ein ffonio ar 0330 1010 444 ac fe wnawn ni anfon un atoch chi.



Wrth lenwi'r ffurflen gais, bydd angen i chi ddarparu eich Rhif Gweinyddu Pwynt Mesurydd (MPAN).

Mae hwn yn rhif unigryw sy'n gysylltiedig â'r eiddo. Cewch hyd iddo ar eich bil trydan. Os na allwch chi ddod o hyd i rif MPAN eich eiddo, gallwch chi ffonio'r Gwasanaeth Gweinyddu Pwynt Mesurydd ar 0330 1010 300, neu lenwi'r ffurflen gais ar ein gwefan www.spenergynetworks.co.uk/mpan

Ar ôl i chi lenwi'r ffurflen gais, defnyddiwch y manylion cyswllt dros y dudalen i'w hanfon atom ni.



Eich Dyfynbris

Byddwn yn rhoi dyfynbris ffurfiol i chi, yn cynnwys dadansoddiad o'r gwaith fesul eitem. Bydd eich dyfynbris yn ddilys am 3 mis calendr.



Talu

Ar ôl cael eich taliad, byddwn yn gwneud ein gorau glas i drefnu'r datgysylltiad ar gyfer y dyddiadau o'ch dewis. Serch hynny, cofiwch y bydd yn rhaid i ni ofyn am gymeradwyaeth yr awdurdod lleol er mwyn gweithio ar y briffordd gyhoeddus.



Tynnu'r mesurydd

Byddwn yn rhoi gwybod i'ch cyflenwr ar eich rhan, gan roi hysbysiad statudol i ganiatáu iddo dynnu'r mesurydd cyn i ni ddechrau ein gwaith. Sylwch fod raid i ni roi rhybudd o 10 diwrnod gwaith i'r cyflenwr dynnu'r mesurydd cyn i ni ddatgysylltu'r ceblau.



Gwaith ar y safle

Ar ôl i ni gytuno ar ddyddiad ar gyfer cyflawni'r gwaith, gofynnwn i chi wneud yn siŵr bod y safle'n rhydd o unrhyw rwystrau a allai achosi oedi. Hefyd, bydd angen i chi neu rywun rydych chi'n ei enwebu fod ar gael ar y diwrnod i wneud yn siŵr ein bod yn gallu cael at ein cyfarpar y tu mewn i'r eiddo.



Cysylltu â ni

Os oes angen mwy o gymorth arnoch, gallwch ffonio ein dylunydd prosiect. Bydd ei enw a'i rif ar eich dyfynbris. Neu gallwch gysylltu â ni ar y manylion isod:

E-bost: gettingconnected@scottishpower.com

Canolbarth a De'r Alban:

SP Energy Networks
320 St Vincent Street, Glasgow, G2 5AD

Ffôn: 0845 270 0785

Swydd Gaer, Glannau Mersi, Gogledd Cymru a Gogledd Swydd Amwythig

PO Box 290
Lister Dr, Liverpool
L13 7HJ

Ffôn: 0845 270 0783



**SP ENERGY
NETWORKS**